CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Wener y 13eg o Ragfyr 2024 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; Cyng. Rhys Parry, James Brunton, Ken Griffiths, William Rees, Aled Rees a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Cadeirydd y Cyng Rhys Parry.

   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Sion Evans a Meirion Roberts, a Cyng Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) .

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Dachwedd 2024 ar gynnig Cyng Ken Griffiths a'i eilio gan Cyng William Rees.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd ynglyn a'r materion a godwyd tro diwethaf. Roedd y Clerc wedi danfon lluniau gan Cyng Rhys Parry yng nghyswllt cael drych ir briffordd o gyfeiriad Llyn Bwtri. Penderfynwyd gofyn ir drych gael ei ddanfon yn uniongyrchol i'r Cyng Rhys Parry. Cadarnhawyd fod y lori gwagu gwteri wedi ymweld a'r ardal, a bod y gwaith wedi ei gwbwlhau. Nodwyd hefyd problem dwr o flaen Ty Alys a oedd yn parhau yn broblem, a byddai rhaid trafod yn y cyfarfod nesaf pan fyddai gohebiaeth pellach i law.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf
   **c)** **Difibrillators** –Nodwyd fod Cyng Aled Rees wedi cytuno i fod yn gyfrifol am y diffibrillator ger y toiledau yn Pennal, a diolchwyd yn fawr iawn am hyn. Roedd angen eu cofrestru yn enw Aled, a byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Tomos Hughes
   **d)** **Fan Transit ar dir Adra** – roedd y fan bellach wedi symud oddiyno.
   e) **Menter y Glan** – adroddwyd am y cais am arian i dalu am ddau gamera CCTV, a bod hyn wedi ei gymeradwyo y tro diwethaf. Foedd bynnag, roedd yr amcangyfrif diweddaraf yn golygu y byddai rhaid talu £533 yr un amdanynt. Ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng William Rees, penderfynwyd talu y gost yma.
   **f)** **Bwrdd Gwybodaeth ger yr arhosfan bws** – byddai rhaid trafod efo Cyng Meirion Roberts.
   g) **Baw cwn ar y Marian –** roedd arwydd i'w gynllunio gan blant yr Ysgol, a chytunwyd ar gyfrannu gwobrau o gyfanswm o £35. Addawodd Rhys gysylltu gyda'r ysgol.

5**. Materion Cynllunio**

Nid oedd unrhyw geisiadau i law ers y cyfarfod diwethaf.

6.**Materion Cyllid**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (13.12.24), sef Cyfri Cyfredol £13496.55, Cyfri Cadw £2670.63.

b) Anfonebau/taliadau – ar gynnig Cyng James Brunton a'i eilio gan Cyng William Rees, cytunwyd i dalu y canlynol;

A W Evans – torri gwair mynwent - £350

Cydnabyddiaeth trydydd chwarter y Clerc (£499.99) a HMRC (£125)

c) Roedd ceisiadau am arian i law, a phenderfynwyd ar gynnig Cyng Aled Rees a'i eilio gan Cyng James Brunton fel a ganlyn;

- Ambiwlans Awyr Cymru – ystyried hyn yn y cyfarfod nesaf, ac yn y cyfamser ceisio cael gwybodaeth o pryd fydd yr Adolygiad Barnwrol yn dod i ben.

- Yr Urdd – Cronfa Cyfle i bawb 2024-25 – cyfrannu £100.

d) Adroddodd y Clerc fod llythyr a dogfennau i law o Swyddfa Archwilio Cymru yn cadarnhau fod **Archwiliad 2023-24** wedi gwbwlhau heb unrhyw ymholiadau. Cadarnhaodd y Clerc fod yr hysbyseb arferol a'r ffurflen flynyddol wedi eu rhoi ar y wefan ac ar yr hysbysfyrddau yn unol â'r gofynion, ac fe'i dangoswyd i'r Cynghorwyr.

**7. Gohebiaeth**

a) Adroddodd y Clerc ei fod wedi bod yn rhan o Gynhadledd SLCC/Un Llais Cymru – Dydd Mercher 20fed Tachwedd (ar zoom) Ymysg y nifer o gyflwyniadau oedd pwysigrwydd archwiliad blynyddol o asedau y Cyngor. Cytunodd Cyng Rhys Parry a Cyng William Rees i yngymryd a hyn, ac adrodd erbyn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd hefyd yr awgrym o gael cyfeiriad e-bost arwahan i'r Cyngor, a chytunwyd ar Cyngorpennal@outlook.com. Byddai'r Clerc yn trosglwyddo a gwneud holl fusnes y Cyngor Cymuned drwy hyn yn y flwyddyn newydd (gan dderbyn y byddai yn cymryd ychydig amser I'w gwbwlhau)

b) Nodwyd ymgynghoriad Cyngor Gwynedd ar drefniadau etholiadol. Roedd y rhan gyntaf yn son am arolwg o ffiniau cymunedol.

c) Adroddwyd y dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru diweddaraf. Cadarnhaodd y Clerc y byddai yn diweddarau y Cynllun hyfforddiant (sydd ar y wefan) ar ol i Cyng Rhys Parry a Cyng James Brunton gymryd rhan yn cwrs Cod Ymddygiad modiwl 9 ar y 24ain o Fedi.

d)Nodwyd lythyr Liz Saville Roberts AS a oedd yn egluro cyfrifoldebau Senedd San Steffan a Senedd Cymru / cefnogi'r gymuned, gofyn cymorth a chyngor y Cyngor Cymuned i gefnogi pobl leol gyda nifer o newidiadau mewn cysylltedd, a chrynodeb o waith aelodau senedd etholaethol Dwyfor Meironnydd. Soniwyd yn arbennig am newid o linellau ffon analog i ffon digidol, metrau clyfar (smart meters) sydd angen signal symudol iddynt weithio, a cholli'r taliad tanwydd a pwysigrwydd fod pobl yn gwybod sut i wneud cais am gredyd pensiwm.

Addawodd y Clerc geisio rhoi cyhoeddusrwydd i'r llythyr yma, gan gynnwys rhoi copi ohono ar yr hysbysfyrddau.

Yng nghyswllt y Senedd San Steffan, nodwyd effaith andwyol y newid yn y dreth etifeddiaeth a gyflwynwyd yn y Gyllideb yn ddiweddar. Roedd y Cynghorwyr yn unfrydol eu barn fod hyn yn mynd i arwain at ddifrod sylweddol i'n cymunedau, ac y dylid gofyn i Gyngor Gwynedd i gefnogi ein safbwynt, gyda chais clir i alw am wyrdroi yn gyfangwbwl yr hyn a basiwyd yn y gyllideb. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Cyng Dewi Owen, a danfon llythyr at Arweinydd y Cyngor, sef Cyng Nia Jeffreys.

Wrth ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, roedd angen hefyd gofyn am eu cefnogaeth yng nghyswllt y galw am ddatganoli rheolaeth Ystad y Goron yng Nghymru i Lywodraeth Cymru .

8**. Unrhyw fater arall.**

a) Nodwyd y drafodaeth ar gymryd trosodd cyfrifoldebau mynwentydd gan Gynghorau lleol a oedd yn cael ei drafod yn y wasg.
b) Atgoffwyd bod angen ffens yn y fynwent newydd a oedd wedi ei drafod yn y gorffennol. Nodwyd y byddai'r Cynghorwyr yn cymryd gofal o hyn.
c) Nodwyd fod llawer o sbwriel (sef deunydd ail-gylchu) yn cael ei golli gan loriau ar ol casglu, ac roedd angen gwneud yn siwr eu bod yn ymwybodol o hyn.
d) Cyhoeddodd Cyng Ken Griffiths ei fod yn ystyried dyfodol ei swydd fel Cynghorydd ar sail ei iechyd. Diolchwyd yn fawr iawn am ei waith dros nifer o flynyddoedd. Byddai'r Clerc yn ymdrin a hyn.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener, 24ain Ionawr 2025 yn y Ganolfan, Pennal am 7.30yh.**

Daethpwyd a'r cyfarfod i ben am 9.00pm.